Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Cymhorthdal prisiau**

13 Mawrth 2020

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 17 Chwefror pan wnaethoch ofyn:

*Annwyl Syr / Fadam,*

*A allech ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i mi.*
*A oes gan y bar yn y Cynulliad gymhorthdal prisiau ac os felly beth yw'r cyfanswm blynyddol.*

*Yn gywir.*

Nid oes gan y Cynulliad gymhorthdal prisiau ar gyfer y bar ym mharlwr te'r Aelodau.

Mae contractwr allanol yn darparu gwasanaethau arlwyo i'r Cynulliad a chyfanswm y gyllideb flynyddol ar gyfer darparu cyfleusterau a gwasanaethau arlwyo i'r Cynulliad ar gyfer 2018-19 yw £364,000. Darperir parlwr te'r Aelodau, sy'n cynnwys bar, fel rhan o'r amrywiaeth o wasanaethau arlwyo cyffredinol a ddarperir i'r Cynulliad. Nid yw'r gwasanaethau penodol a ddarperir yn seiliedig ar gymorthdaliadau prisiau ar gyfer yr eitemau sydd ar werth ond yn hytrach ar gost darparu cyfanswm yr holl wasanaethau ar draws sawl man arlwyo.

Cyhoeddir manylion ein cyllideb flynyddol, gan gynnwys costau penodol ar gyfer arlwyo, yn ein Cyllideb Flynyddol:

http://senedd.assembly.wales/mgissueHistoryHome.aspx?lid=2852

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae’ch cais wedi’i ystyried yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio’r cyfeiriad e-bost a ganlyn: ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu’n ysgrifenedig i

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF